Cyllid & Tollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Ebrill 2015 Rhifyn 53

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

## Croeso

### Helo a chroeso i rifyn mis Ebrill o Fwletin y Cyflogwr

Gan fod Etholiad Cyffredinol wedi'i gyhoeddi ar gyfer 7 Mai 2015, rydym bellach yn y cyfnod cyn yr etholiad, a elwir yn purdah. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff rhai cyfyngiadau eu gosod ar holl adrannau'r Gwasanaeth Sifil, hyd nes bod Llywodraeth newydd yn cael ei ffurfio. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, mae'r rhifyn hwn o Fwletin y Cyflogwr ond yn cynnwys gwybodaeth ynghylch TWE a fydd yn helpu cyflogeion i fodloni eu rhwymedigaethau cyflogres i CThEM dros y misoedd nesaf.

Ar dudalen 3, ceir nodyn atgoffa ynghylch yr hyn y dylech ei wneud os nad ydych eto wedi gwneud, neu bod angen i chi ddiwygio, cyflwyniad terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015. Yn dilyn hynny, mae erthygl ar dudalen 4 a allai fod o gymorth i chi gael dechreuad da ar ddechrau'r flwyddyn dreth newydd o ran eich cofnodion cyflogres a hysbysu ynghylch TWE.

Yn ogystal, ceir llawer o wybodaeth yn y rhifyn hwn o'r Bwletin a allai eich helpu os oes rhaid i chi gyflwyno gwybodaeth ynghylch treuliau a buddiannau.

Er mwyn gwneud yn siŵr nad ydych yn methu unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol, rwy'n argymell eich bod yn cofrestru ar gyfer derbyn ein e-byst hysbysu. Mae gwneud hynny'n golygu y byddwn yn gallu anfon e-bost atoch bob tro i rifyn newydd o'r Bwletin gael ei gyhoeddi.

Ac yn olaf, anelwn at drosglwyddo gwybodaeth glir, gyson ac amserol sy'n addas i gyflogwyr ac yn eu cynorthwyo i fodloni eu rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, felly, ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrîn â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk. Rydym yn croesawu eich adborth bob amser.



Alison Bainbridge
Golygydd

### Cynnwys


2 Cyfraddau a throthwyon ar gyfer cyflogwyr am 2015-2016
2 Tâl tanwydd ceir, buddiant faniau a thanwydd faniau
2 Buddiannau Pitw
2 Diddymu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol eilaidd ar gyfer cyflogeion o dan 21 mlwydd oed
2 Lwfans Cyflogaeth ar gyfer cyflogwyr gweithwyr gofal a chymorth
3 Hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn
3 Bydd angen ffurflen dreth newydd os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall
4 Rhedeg a hysbysu ynghylch eich cyflogres – ei gael yn iawn
6 Lwfansau Treth Incwm
7 Talu eich TWE – ei gael yn iawn
8 Gwasanaeth talu ar-lein
8 Mae Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd wedi cyrraedd – Ydych chi'n barod?
9 Hysbysu ynghylch Treuliau a Buddiannau ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015
13 Cyflwyno ffurflenni P11D os yw eich busnes wedi mynd drwy broses gyfuno cynlluniau TWE, dilyniant neu drosglwyddiad cynlluniau rhannol
13 Cau eich cynllun TWE

# Cyfraddau a throthwyon ar gyfer cyflogwyr am 2015-2016

Mae manylion y cyfraddau, trothwyon a'r terfynau TWE a CYG ar gael yn Cyfraddau a throthwyon ar gyfer cyflogwyr am 2015-2016

Ar gyfer codau 2015-2016, dylech barhau i ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar ffurflen P9X (2015), 'Codau treth i'w defnyddio o 6 Ebrill 2015', er mwyn cofnodi'r cod treth cywir ar gofnod cyflogres y cyflogai. Mae'r ffurflen P9X ar gael ar-lein i'w lawrlwytho neu argraffu.

Nid oes newid i fersiynau Ebrill 2015 o feddalwedd y Gyflogres a Thablau Treth y dylid eu defnyddio o 6 Ebrill 2015.

# Tâl tanwydd ceir, buddiant faniau a thanwydd faniau

Mae'r eithriad cyfredol rhag tâl buddiant faniau yn cael ei ddiddymu'n raddol rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2020.

O'r flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2015, bydd cyfradd isel arbennig o 20% o dâl buddiant faniau yn gymwys ar gyfer faniau ag allyriadau sero.

Bydd y gyfradd arbennig hon yn cynyddu bob blwyddyn wedyn tan Ebrill 2020, pan fydd yr un peth â'r tâl buddiant faniau llawn.

# Buddiannau Pitw

Mae'n bosib eich bod yn cofio i ni ddweud wrthych yn y Bwletin y Cyflogwr diwethaf y byddai eithriad newydd rhag treth incwm a CYG ar gyfer buddiannau pitw yn cael ei gyflwyno o 6 Ebrill 2015.

Ni fydd hyn bellach yn digwydd felly dylai cyflogwyr barhau i wneud cais am yr arweiniad yn Llyfryn 480 ac yn y Canllaw Incwm Cyflogaeth yn EIM21860 ymlaen er mwyn pennu'r ffordd briodol o ymdrin â buddiannau pitw. Bydd yr holl gytundebau sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd yn dal i fod yn gymwys, cyn belled â bod dim newid wedi bod yn yr amgylchiadau.

# Diddymu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol eilaidd ar gyfer cyflogeion o dan 21 mlwydd oed

**A ydych, neu a fyddwch, yn cyflogi rhywun sydd o dan 21 mlwydd oed?**

O 6 Ebrill 2015 ymlaen, os ydych yn cyflogi rhywun o dan 21 mlwydd oed, ni fydd yn ofynnol arnoch mwyach i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 eilaidd y cyflogwr ar eu henillion hyd at y Trothwy Eilaidd Uchaf.

Ni effeithir ar y Lwfans Cyflogaeth gan gyflwyniad y newidiadau CYG ar gyfer y rhai hynny o dan 21 mlwydd oed. Bydd y lwfans o £2,000 yn parhau i gael ei ddidynnu o unrhyw CYG eilaidd sy'n ddyledus gan y cyflogwr i'w dalu, fel y mae nawr.

'Abolition of employer National Insurance contributions for under 21s: employer guide' – mae hwn ar gael am wybodaeth bellach.

# Lwfans Cyflogaeth ar gyfer cyflogwyr gweithwyr gofal a chymorth

Gall unigolion sy'n cyflogi rhai gweithwyr gofal a chymorth bellach ostwng eu bil cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) eilaidd Dosbarth 1 y cyflogwr gan hyd at £2,000 bob blwyddyn drwy hawlio'r Lwfans Cyflogaeth CYG.

Mae hawlio yn beth syml i'w wneud. Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw gwirio a ydych yn gymwys cyn hawlio drwy gyfrwng eich cyflogres.

Os ydych yn cyflogi rhywun am y tro cyntaf, mae arweiniad llawn ar gael.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

# Hysbysu ar ddiwedd y flwyddyn

### Cyflwyniadau TWE terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015

Gyda 5 Ebrill wedi mynd heibio'n ddiweddar, bydd y rhan fwyaf ohonoch bellach wedi gwneud eich cyflwyniad TWE terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015. Peidiwch ag anghofio fod yn rhaid i chi roi P60 i gyflogeion perthnasol erbyn 31 Mai.

Os ydych yn gwneud eich cyflwyniad terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015 drwy gyfrwng Crynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS), peidiwch ag anghofio:

- cadarnhau mai hwn yw eich cyflwyniad olaf ar gyfer y flwyddyn dreth 2014-2015. Cwblhewch y rhestr wirio diwedd blwyddyn yn fanwl gywir, os yw'n ofynnol arnoch i wneud hyn gyda'ch meddalwedd, er mwyn gwneud cyflwyniad terfynol
- ei anfon at CThEM erbyn 19 Ebrill.

Mae'n bosib y codir cosb arnoch os caiff cyflwyniadau eu gwneud yn hwyr.

Mae gwybodaeth bellach ynghylch gwneud cyflwyniad TWE terfynol llwyddiannus i'w chael yn Payroll: annual reporting and tasks

Os ydych eisoes wedi anfon eich cyflwyniad terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015, ond eich bod bellach wedi canfod gwall, peidiwch â phoeni – mae'n hawdd i chi unioni pethau:

- Cyn 20 Ebrill: yn syml, cywirwch ffigurau'r flwyddyn hyd yn hyn ac anfonwch gyflwyniad ychwanegol
- Ar neu ar ôl 20 Ebrill: cywirwch yr wybodaeth drwy anfon Diweddariad Blwyddyn Gynharach (EYU) cyn gynted â phosib.

Gallwch ganfod mwy ynghylch cywiro gwallau cyflogres drwy fynd i Correcting payroll errors

Roedd gwybodaeth bellach i'ch helpu i lenwi eich cyflwyniad terfynol yn llwyddiannus ac osgoi cosbau yn rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr

### Hysbysu ynghylch buddiannau a roddwyd

Nid yw cwblhau'r rhestr wirio diwedd blwyddyn bellach yn angenrheidiol.

Fodd bynnag, nid yw dileu'r rhestr wirio hon yn effeithio ar rwymedigaeth cyflogwr i hysbysu ynghylch y canlynol mewn pryd:

- yr holl dreuliau a buddiannau a roddir ar ffurflenni P11D a P9D
- swm yr Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A sy'n ddyledus ar yr holl dreuliau a buddiannau a roddwyd ar y ffurflen P11D(b).

Pan nad oes buddiannau wedi'u rhoi o 6 Ebrill 2014 hyd at 5 Ebrill 2015 a bod ffurflen P11D(b) neu nodyn atgoffa P11D(b) wedi'i derbyn, gall cyflogwyr naill ai:

- cyflwyno datganiad 'dim'
- llenwi'r ffurflen '2014 to 2015 Employer – No return of Class 1A'.

i roi gwybod i ni nad oes ganddynt P11D i'w chyflwyno a bod dim datganiad Dosbarth 1A ganddynt i'w wneud. Mae'r ffurflen ar-lein, 'dim datganiad i'w wneud,' ar gael nawr.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau ffurflenni Treuliau a Buddiannau [P11D, P9D a P11D(b)] yw 6 Gorffennaf 2015. Gweler yr erthygl ar dudalen 9 am fwy o wybodaeth.

# Bydd angen ffurflen dreth newydd os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall

Os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall, gallech gael eich ystyried fel bod yn gyfryngwr cyflogaeth. Mae'n bosib bydd y rheolau newydd a gyflwynir o 6 Ebrill 2015 yn effeithio arnoch; mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyfryngwyr cyflogaeth roi gwybodaeth ynghylch cyflogai mewn datganiad bob tri mis i CThEM. Ni fydd yn rhaid i bob cyfryngwr cyflogaeth gyflwyno datganiad. Bydd ond yn rhaid i chi lenwi datganiad os taw chi yw'r cyfryngwr cyflogaeth sydd â'r cytundeb gyda'r cleient terfynol.

Mae arweiniad syml ynghylch cadw cofnodion a'r datganiad wedi'i gyhoeddi gyda'r dogfennau templed hysbysu ychwanegol. Byddwn yn parhau i ddatblygu hwn.

Mae arweiniad mwy manwl ar gael yn yr Employment Status Manual

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

# Rhedeg a hysbysu ynghylch eich cyflogres - ei gael yn iawn

Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu ynghylch eich TWE yn gywir ac mewn da bryd.

Gallai **data anghywir** achosi i chi fethu â chysoni swm yr arian sydd arnoch gyda'r hyn yr ydym yn gofyn amdano. Gallai hefyd gael effaith negyddol ar gofnodion eich cyflogeion, gan achosi iddynt dalu'r swm anghywir o dreth neu dderbyn symiau anghywir o fuddiannau.

Gallai **hysbysiadau hwyr** olygu eich bod yn derbyn cosb, a gallai hyn, eto, gael effaith negyddol ar eich cyflogeion. Rydym am i'n cwsmeriaid gyflwyno mewn pryd, yn hytrach na gorfod codi cosbau arnynt.

Mae yna nifer o gamau y gallech eu cymryd i'ch helpu i wneud yn siŵr eich bod yn osgoi gwallau ac yn cael eich gwybodaeth TWE yn gywir ac yn ei hanfon atom mewn pryd er mwyn osgoi derbyn cosb yn ddiangen.

## 1) Cael gwybodaeth TWE yn iawn

I gael yr wybodaeth TWE yn iawn, mae'n rhaid i chi gael eich gwybodaeth cyflogres yn iawn. Mae hyn am fod yr wybodaeth a nodwch ar eich cyflogres yn mynd yn uniongyrchol i'r cyflwyniadau amser real a anfonwch atom, sydd, yn eu tro, yn mynd yn uniongyrchol i'n system Technoleg Gwybodaeth.

Mae pecynnau cyflogres gwahanol yn rhoi lefelau gwahanol o reolaeth i gyflogwyr ynghylch yr wybodaeth y gallant ei hychwanegu/diweddaru. Pan fo modd i chi wneud hyn, dyma ychydig o gamau y gallwch eu cymryd er mwyn osgoi rhai o'r problemau mwyaf cyffredin fel y gall CThEM brosesu eich data cyflogres yn iawn.

- **Pan fod cyflogai yn gweithio'n ysbeidiol a ddim yn cael ei dalu ar sail reolaidd** (er enghraifft, myfyriwr sy'n gweithio yn ystod ei wyliau neu athro/athrawes lanw neu unigolyn arall sy'n cael ei gyflogi/chyflogi 'yn ôl yr angen'), dewiswch ddynodydd patrwm **Taliad Cyflogaeth Afreolaidd** ar Gyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) – **peidiwch** â dewis y dynodydd hwn ar gyfer cyflogai sy'n cael ei dalu'n rheolaidd
- Pan fod y taliad sy'n cael ei hysbysu yn ymwneud â:
  - **taliad cyntaf pensiwn galwedigaethol**, llenwch yr adran **Swm Blynyddol Pensiwn Galwedigaethol.** O dan yr holl amgylchiadau eraill, ni ddylid rhoi cofnod yn yr adran hon - peidiwch â nodi 0.00
  - **taliad o bensiwn** (gan gynnwys blwydd-daliadau, incwm o drefniadau didyniadau a thaliadau cymudiad pitw i unigolyn), dewiswch y **Dangosydd Pensiwn Galwedigaethol.** Os yw'r taliad ar gyfer unrhyw beth arall, ni ddylid dewis y dangosydd hwn. Pan fod y cofnod hwn wedi'i wneud (neu wedi'i hepgor) yn anghywir, gall gael effaith ar sut y cyfrifir yr hawl i Gredyd Treth neu Gredyd Cynhwysol.
- **Os ydych yn derbyn ffurflen SL1, cofnodwch ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn eich meddalwedd cyflogres**, fel bod y rhain yn cael eu didynnu'n awtomatig o gyflog y cyflogai. Yn yr un modd, os ydych yn derbyn y **ffurflen SL2** dylech roi'r gorau i wneud y didyniadau hyn. Am arweiniad, ewch i [Tell HMRC about a new employee 4. Student loan deductions]
- **Pan fyddwch yn cyflwyno Diweddariad Blwyddyn Gynharach** (**EYU**) **er mwyn hysbysu ynghylch cywiriad, dylech ond hysbysu yngylch y gwahaniaeth** rhwng y swm a gyflwynwyd yn flaenorol (symiau ychwanegol neu symiau minws) a swm cywir. Peidiwch â hysbysu ynghylch cyfanswm diwygiedig. Mae hyn am fod y symiau a gynhwysir ar yr EYU wedi'u hychwanegu at neu wedi'u didynnu o'r ffigurau sydd yno'n barod felly mae'n bwysig eich bod ond yn hysbysu ynghylch y gwahaniaeth
- **Dylech ein hysbysu ar Grynodeb o Daliadau'r Cyflogwr** (**EPS**) os nad oes gennych daliadau i'w nodi mewn cyfnod tâl neu fod eich cynllun TWE yn anweithredol. Os nad ydych yn cyflwyno'r wybodaeth hon ar EPS, byddwn yn codi tâl misol amcangyfrifedig arnoch. Gallwch hysbysu gan ddefnyddio EPS hyd yn oed pan fyddwch yn hysbysu ar ôl 19 Ebrill yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth
- **Wrth gyflwyno EPS, dylech hysbysu ynghylch ffigurau'r flwyddyn hyd yn hyn, yn hytrach na'r cyfanswm misol**, pan fyddwch yn hysbysu ynghylch gwybodaeth newydd neu wedi'i diweddaru, ynghylch ad-dalu taliadau statudol neu ddidyniadau CIS yr aed iddynt. Mae hefyd yn bwysig nad ydych yn rhoi seros yn yr adrannau hyn o'r EPS, pan eich bod wedi nodi swm sy'n fwy na sero yn flaenorol ar gyfer y flwyddyn dreth, am y gallai hyn arwain at dandaliad
- **Pan fod cyflwyniad RTI yn cael ei wrthod gan CThEM**, dylech ei gywiro a'i ailanfon cyn gynted â phosib. Byddwch yn gwybod ei fod wedi bod yn aflwyddianus oherwydd byddwn yn anfon neges electronig i'ch cynghori. Gallai methiant i gywiro ac ailgyflwyno cyflwyniad a wrthodwyd, yn llwyddiannus, arwain atom yn cadw gwybodaeth anghywir ynghylch cyflogeion, a gallai hynny effeithio ar gyfrifiad tâl y cyflogwr. Gellir codi cosb arnoch hefyd am gyflwyno'n hwyr – gweler y drydedd fwled yn adran 2a ar dudalen 5
- **Cadwch ddata wrth gefn** ar gyfer eich cyflogres fel, os bydd angen unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau dilynol, bydd yr wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol ar gael er mwyn i chi sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau'n gywir.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

Mae arweiniad llawn yngylch pa wybodaeth gyflogres i'w chyflwyno, i'w chael yn Running Payroll: reporting to HMRC

Mae gwybodaeth hefyd ynghylch sut i osgoi cyflogaethau dyblyg i'w chael ar dudalen 4 rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr

## 2) Sut i hysbysu ynghylch TWE mewn da bryd: osgoi cosbau a gwneud apeliadau

Dyma ychydig o awgrymiadau ynghylch sut i osgoi rhai o'r gwallau mwyaf cyffredin rydym wedi'u gweld ers cyflwyno'r cosbau yn ystod y flwyddyn am gyflwyno'n hwyr, sydd wedi arwain at gosbau'n cael eu codi'n ddiangen, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut i apelio. Sylwer – pan fyddwch yn derbyn neges electronig gennym sy'n nodi ein bod wedi derbyn eich cyflwyniad yn llwyddiannus, nid yw'n golygu ei fod yn gywir a/neu mewn pryd – cydnabyddiaeth yn unig ydyw ein bod wedi'i dderbyn.

a) Osgoi cosbau

- Wrth ddefnyddio **rheswm dros hysbysu'n hwyr**, defnyddiwch ef ar gyfer **bob taliad** ar yr FPS **pan fod yr amgylchiadau'n gymwys**
- **Defnyddiwch reswm H dros hysbysu'n hwyr os oes angen i chi wneud cywiriad i gyflwyniad a wnaed gennych yn flaenorol**, a bod dyddiad(au) talu sydd arno bellach yn y gorffennol
- Dylech ddefnyddio'r rheswm hwn ar gyfer pob cywiriad unigol yr ydych yn hysbysu yn ei gylch. Am arweiniad, ewch i What payroll information to report to HMRC: Late reporting reason a Running payroll 8: Sending an FPS after payday
- **Defnyddiwch reswm G dros hysbysu'n hwyr os credwch fod gennych esgus rhesymol dros gyflwyno'n hwyr**, megis problemau Technoleg Gwybodaeth. Gall hyn gynnwys cyflwyniadau rydych wedi'u cywiro a'u hailgyflwyno am fod eich cyflwyniad cyntaf wedi ei wrthod
- **Defnyddiwch reswm F dros hysbysu'n F pan rydych wedi hysbysu o fewn 7 diwrnod 'ar neu cyn' y dyddiad talu oherwydd amgylchiadau penodol.** Er enghraifft, pan fod taliadau'n amrywio yn ôl y gwaith a wnaed yn ystod y dydd, neu pan ei fod yn anymarferol i chi allu cyfrifo'r taliadau sy'n ddyledus a hysbysu yn eu cylch cyn bo'r gwaith wedi'i gwblhau.

  Dylech ddefnyddio'r rheswm hwn dros hysbysu'n hwyr ar gyfer pob taliad na allwch hysbysu yn ei gylch mewn pryd pan fo'r amodau hynny yn gymwys, gan wneud yn siwr eich bod yn anfon gwybodaeth y gyflogres o fewn 7 diwrnod o wneud y taliadau. Am arweiniad, ewch i Running payroll 8: Sending an FPS after payday

**Dylai'r dyddiad talu a nodwch ar eich FPS fod y cyntaf o'r dyddiad y telir y cyflogai neu'r dyddiad yr oedd hawl ganddo i'r taliad hwnnw, nid dyddiad rhedeg y gyflogres,** neu ddyddiad arall o'ch system gyflogres. Am arweiniad, ewch i: What payroll information to report to HMRC neu gweler tudalen 5 rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr

- **Defnyddiwch yr ymlaciad hysbysu dros dro dim ond os oeddech yn gyflogwr heb fwy na 9 o gyflogeion cyn 6 Ebrill 2014.** Os (i) daethoch yn gyflogwr ar neu ar ôl 6 Ebrill 2014 (hyd yn oed os oes gennych 9 neu lai o gyflogeion) neu (ii) o 6 Ebrill 2015 mae gennych bellach fwy na 9 o gyflogeion, dylech hysbysu CThEM ynghylch gwybodaeth TWE ar neu cyn y dyddiad y talwch gyflogai, yn hytrach nag unwaith ar ddiwedd y mis treth.
  - Defnyddiwch **reswm E dros hysbysu'n hwyr** os yw'r ymlaciad yn gymwys
  - Cofiwch, pan fod yr ymlaciad yn gymwys dylech hysbysu ar neu cyn dyddiad cyflog olaf y **mis treth**

  Er enghraifft, os ydych yn talu eich staff yn wythnosol bob dydd Gwener, a'r dyddiad talu olaf yn y mis yw 1 Mai, dylech ddefnyddio 1 Mai fel y dyddiad talu, defnyddio ffigurau'r flwyddyn hyd yn hyn a sicrhau eich bod yn hysbysu ynghylch gwybodaeth y gyflogres ar neu cyn 1 Mai, oni bai fod gennych reswm dilys dros hysbysu'n hwyr. Peidiwch ag anghofio bod yr ymlaciad hwn ond yn para hyd at 5 Ebrill 2016. Am arweiniad, ewch i: Running payroll 8: Sending an FPS after payday
- **Peidiwch ag anghofio bod talu CThEM a hysbysu CThEM ynghylch gwybodaeth am daliadau cyflogeion, yn ddwy rwymedigaeth ar wahân gyda dyddiadau cau gwahanol.** Felly, hyd yn oed os ydych yn anfon eich Treth a'ch taliad Yswiriant Gwladol atom mewn pryd, mae'n dal yn bosib y codir cosb arnoch am gyflwyno'n hwyr. Dylech hysbysu eich gwybodaeth ynghylch TWE i ni ar neu cyn yr amser yr ydych yn talu'ch cyflogeion, nid pan eich bod yn talu CThEM. Am arweiniad, ewch i Pay employers' PAYE tax and National Insurance
- **Byddwch yn ofalus gyda chyflogeion sy'n gadael a defnyddiwch reswm H dros hysbysu'n hwyr os na allwch hysbysu ynghylch gwybodaeth y gyflogres mewn da bryd**, er enghraifft, pan fo unigolyn yn gadael eich cyflogaeth cyn y dyddiad hysbysu rheolaidd.

  Er enghraifft: Talwyd Cyflogai X a gadawodd eich cyflogaeth ar 17 Mawrth 2015. Roedd amgylchiadau annisgwyl yn golygu na hysbyswyd ynghylch y taliad na'r wybodaeth gadael, i CThEM hyd nes 23 Mawrth 2015. Dylech ddefnyddio reswm H dros hysbysu'n hwyr yn eich FPS i ddweud wrth CThEM pam fod y taliad wedi'i nodi'n hwyr.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

Rydym yn gwerthfawrogi na fydd darparwyr blwydd-daliadau/cynlluniau pensiwn yn cael eu hysbysu ar unwaith pan fydd person sy'n derbyn blwydd-dal/pensiynwr yn marw, a dylent hefyd ddefnyddio'r rheswm hwn dros hysbysu'n hwyr wrth ddiweddaru eu materion TWE ar ôl derbyn yr wybodaeth angenrheidiol.

- **Peidiwch ag anwybyddu negeseuon rhybuddio electronig y Gwasanaeth Hysbysu Generig (GNS).**

  Bwriedir i'r negeseuon hyn fod yn wasanaeth defnyddiol i'ch hysbysu bod ein systemau wedi nodi gwall dichonadwy. Gwnaethom gynnal archwiliad yn ddiweddar yn dilyn trafodaeth ar fforymau'r Rhyngrwyd ynghylch y negeseuon hyn yn cael eu hanfon yn anghywir. Gwnaethom ganfod bod y rhan helaeth wedi'u hanfon yn gywir, mewn gwirionedd.

  Mae'n bosib na fydd angen codi cosb (er enghraifft, mae'n bosib taw hwn yw'r diffygdaliad cyntaf yn y flwyddyn dreth) ond mae'n gyfle i adolygu eich proses gyflwyno er mwyn sicrhau bod pethau'n iawn yn y dyfodol. Gallwch wirio'ch negeseuon yn yr un modd ag y byddwch os ydych yn derbyn hysbysiadau codio electronig, sef naill ai drwy:

  - Mewngofnodi i TWE Ar-lein a dewis yr hysbysiadau generig o fewn yr adran 'Crynodeb o hysbysiadau'
  - Defnyddio'r Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE
  - Defnyddio eich meddalwedd masnachol – dylech wirio gyda'ch cyflenwr meddalwedd bod eu cynnyrch yn gydnaws â chyrchu negeseuon GNS.

Gall defnyddwyr Ymgyfnewid Data Electronig (EDI) ddewis derbyn negeseuon GNS drwy naill ai EDI neu'r rhyngrwyd os oes ganddynt fodd o dderbyn gohebiaeth allanol drwy gyfrwng EDI.

Ac os ydych yn derbyn e-byst hysbysu ar gyfer negeseuon fel Codau Treth, byddwch hefyd yn derbyn e-byst hysbysu yn awtomatig ar gyfer y negeseuon generig hynny

- **Gwnewch yn siŵr bod eich meddalwedd wedi'i diweddaru.** Cyn i chi wneud unrhyw gais trwy ddull electronig, dylech wneud yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r feddalwedd
- **Os nad ydych wedi talu unrhyw un am fis, bydd yn rhaid i chi anfon EPS** erbyn y 19eg o'r mis er mwyn rhoi gwybod i ni am hyn.

Er bod eich EPS yn ddyledus erbyn y 19eg o'r mis, mae'n bosib y dymunwch anfon eich EPS cyn yr 11eg o'r mis er mwyn osgoi derbyn neges GNS ynghylch peidio â chyflwyno. Am arweiniad, ewch i Running Payroll: reporting to HMRC: EPS

**b) Gwneud apeliadau**

- Defnyddiwch y gwasanaeth apeliadau ar-lein newydd os nad ydych yn cytuno gyda'ch cosb Gallwch gyrchu'r gwasanaeth hwn drwy TWE Ar-lein. Caiff eich apêl ei thrin yn gynt a chewch benderfyniad llawer yn gyflymach na phetasech yn apelio ar bapur. Byddai'n well gennym petaech yn apelio ar-lein, ond os ydych yn apelio ar bapur, ni chaiff hyn unrhyw effaith ar p'un a dderbynnir eich cais ai peidio.

  Rydym yn cydnabod bod nifer fach o gwsmeriaid wedi derbyn neges terfyn amser wrth geisio anfon eu hapeliadau ar-lein. Mae'r broblem bellach wedi'i datrys ac rydym yn annog cyflogwyr i barhau i apelio yn erbyn eu cosbau drwy ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein.

  Peidiwch â defnyddio'r blwch 'Arall' os oes opsiwn apelio arall sy'n addas. Dylech ond defnyddio'r blwch ''Arall' os nad oedd eich rheswm dros apelio yn syrthio o fewn y categorïau yn y system ar-lein. Os bydd gennym unrhyw gwestiynau pellach ynghylch eich apêl, byddwn yn rhoi gwybod i chi.
- **Dylech fod yn gryno yn eich eglurhad ynghylch eich apêl –** mae yna derfyn o 1,000 o gymeriadau.

# Lwfansau Treth Incwm

Gwnaethom egluro yn rhifyn mis Rhagfyr 2014 o Fwletin y Cyflogwr bod y lwfans personol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n cychwyn 6 Ebrill 2015 wedi cynyddu i £10,600. Mae'r cynnydd hwn bellach wedi dod â'r lwfans personol sylfaenol i lefel sy'n gyfartal â'r lwfans oedran personol, ac o ganlyniad, ni fydd CThEM bellach yn defnyddio'r ôl-ddodiad 'P' ar hysbysiadau cod treth y cyflogwr P6 a P9.

Bydd cyflogwyr a darparwyr pensiwn bellach wedi derbyn eu hysbysiadau cod ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n cychwyn 6 Ebrill 2015, sy'n dangos bod yr ôl-ddodiad cod treth 'P' wedi newid i'r ôl-ddodiad 'L'. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, bod gan nifer fechan o gyfrifon cwsmeriaid yr ôl-ddodiad 'P' o hyd. Rydym yn gweithio i'w cywiro a byddwn yn anfon hysbysiadau cod wedi'u diwygio cyn gynted ag y gallwn. Yn y cyfamser, dylech barhau i weithredu'r cod ôl-ddodiad P hyd nes y byddwch yn derbyn hysbysiad cod treth newydd.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

# Talu eich TWE - ei gael yn iawn

### Cyfeirnodau taliadau TWE

Ar ddiwedd un flwyddyn dreth a dechrau'r un nesaf, mae mor bwysig ag erioed i ddefnyddio'r cyfeirnod talu cywir, yn enwedig os ydych yn talu'n gynnar iawn neu'n hwyr iawn. Mae'r cyfeirnod a anfonwch gyda'ch taliad yn hanfodol gan ei fod yn dweud wrthym pa gofnod y cyflogwr mae'r taliad yn perthyn iddo, fel y gallwn ei ddyrannu'n gywir cyn gynted â phosib.

Mae'r tabl isod yn dangos i chi pa gyfeirnod i'w ddefnyddio wrth wneud taliad TWE ar gyfer mis olaf un flwyddyn dreth a pha gyfeirnod i'w ddefnyddio ar gyfer mis 3/chwarter 1 y flwyddyn dreth ddilynol.

| Taliad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben | Mae'n rhaid i CThEM dderbyn taliadau electronig wedi'u clirio erbyn | Cyfeirnod i'w ddefnyddio wrth dalu ar amser | Cyfeirnod i'w ddefnyddio wrth dalu'n gynnar iawn neu'n hwyr iawn * |
|---|---|---|---|
| **5 Ebrill 2015**<br>(mis 12 blwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015) | **22 Ebrill 2015** | Os bydd eich taliad yn clirio rhwng 6 Ebrill a 5 Mai 2015, defnyddiwch eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon chi e.e. **123PA00012345** | Os bydd eich taliad yn clirio cyn 6 Ebrill neu ar ôl 5 Mai 2015, defnyddiwch eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon chi wedi ei ddilyn gan **1512** e.e. **123PA000123451512**<br>Mae **1512** yn dweud wrthym fod y taliad ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015, mis **12** |

| Taliad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben | Mae'n rhaid i CThEM dderbyn taliadau electronig wedi'u clirio erbyn | Cyfeirnod i'w ddefnyddio wrth dalu ar amser | Cyfeirnod i'w ddefnyddio wrth dalu'n gynnar iawn neu'n hwyr iawn * |
|---|---|---|---|
| **5 Gorffennaf 2015**<br>(mis 03/chwarter 01 y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2016) | **22 Gorffennaf 2015** | Os bydd eich taliad yn clirio rhwng 6 Gorffennaf a 5 Awst 2015, defnyddiwch eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon chi e.e. **123PA00012345** | Os bydd eich taliad yn clirio cyn 6 Gorffennaf neu ar ôl 5 Awst 2015, defnyddiwch eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon wedi'i ddilyn gan **1603** e.e. **123PA000123451603**<br>Mae **1603** yn dweud wrthym fod y taliad ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2016, mis **03** |

Os ydych bob tro yn talu mewn pryd, dim ond eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 13 cymeriad sydd ei angen arnoch (mae'r cyfeirnod uchod at ddibenion enghreifftiol yn unig).

Os ydych yn talu'n gynnar neu'n hwyr, rhowch wybod i ni pa flwyddyn dreth a mis treth mae eich taliad yn berthnasol iddi/iddo drwy ychwanegu'r 4 rhif hwn i ddiwedd eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon. Cofiwch i'w dileu neu eu cywiro ar gyfer eich taliad nesaf.

* Os yw eich taliad yn cyrraedd yn hwyr, gallech fod yn agored i dalu llog a/neu gosb am dalu'n hwyr.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

Gallai unrhyw oedi wrth ddyrannu'ch taliad olygu y gallech dderbyn neges yn dweud eich bod wedi talu'n hwyr. Mae'n bosib hefyd y codir llog a chosbau arnoch am dalu'n hwyr os nad ydych yn talu mewn da bryd ac yn llawn – cyfrifwn hyn drwy ddefnyddio

- Y cyfanswm a ddangosir ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) ar gyfer mis treth, gan gynnwys unrhyw gywiriadau neu addasiadau a gyflwynwyd ar neu cyn y 19eg o'r mis dilynol neu ar Ddiweddariad Blwyddyn Gynharach (EYU)
- Llai y swm a ddangosir ar unrhyw Grynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS) a gyflwynir ar neu cyn y 19eg o'r mis dilynol.

Cofiwch y dylai FPS ac EPS bob tro gynnwys ffigurau'r flwyddyn hyd yma ond dylai EYU ddangos y swm rydych am addasu FPS cynharach mewn blwyddyn dreth flaenorol ganddo.

### Gwallau cyffredin i'w hosgoi

Peidiwch â

- Defnyddio eich cyfeirnod cyflogwr i dalu. Dylech dalu gyda'ch cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon sy'n 13 digid mewn hyd
- Rhoi gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft, y math o dreth rydych yn ei thalu, ar ôl eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon. Yr unig beth y dylech ychwanegu, os ydych yn talu'n hwyr neu'n gynnar, yw'r cod 4 digid sy'n dynodi'r flwyddyn dreth a'r mis treth. Bydd eich cyfeirnod wedyn yn troi'n 17 digid mewn hyd
- Parhau i ychwanegu'r un cod 4 digid i'ch cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon i dalu ar gyfer misoedd eraill, bydd yn arwain at daliadau'n cael eu dyrannu'n anghywir. Dylech naill ai ddileu'r rhain os ydych yn talu mewn da bryd neu eu diweddaru er mwyn dangos y flwyddyn dreth a'r mis treth sy'n cael ei thalu/dalu
- Defnyddio geiriau yn lle eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon, er enghraifft, enw eich cwmni neu'r math o dreth sy'n cael ei thalu.

# Gwasanaeth talu ar-lein

Gallwch dalu eich TWE y Cyflogwr nawr drwy gyfrwng cerdyn debyd neu gredyd gan ddefnyddio gwasanaeth taliadau ar-lein newydd.

Gellir cyrchu'r gwasanaeth ar y dudalen Pay Employers' PAYE ar GOV.UK. Gallwch nodi cyfeiriad e-bost er mwyn derbyn e-bost sy'n cadarnhau eich taliad. Testun yr e-bost fydd 'World CARD transaction confirmation'.

# Mae Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd wedi cyrraedd - Ydych chi'n barod?

Bydd arweiniad mwy manwl ar gael yn y Canllaw Statws Cyflogaeth o ganol mis Ebrill. Mae Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd ar gyfer rhieni sy'n gweithio y disgwylir i'w babanod gael eu geni ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015. Mae'n rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i deuluoedd ynghylch sut maent yn gofalu am eu plentyn yn y flwyddyn gyntaf.

Mae arweiniad manwl ynghylch absenoldeb a thâl rhieni ar y cyd ar gael ar gyfer cyflogwyr.

### Talu ac Adennill ShPP ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n cychwyn 6 Ebrill 2015

Pan fydych yn talu neu'n adenill ShPP yn y flwyddyn dreth sy'n cychwyn 6 Ebrill 2015, byddwch yn gallu defnyddio'r meysydd data presennol ar gyfer Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol (ASPP). Mae'r blychau wedi'u hail-lansio fel ASPP/ShPP. Mae hyn er mwyn caniatáu am daliadau ASPP a fydd yn dal i fod yn daladwy yn ystod y flwyddyn dreth honno. O'r flwyddyn dreth sy'n cychwyn 6 Ebrill 2016, caiff y blychau hyn eu diwygio er mwyn dangos ShPP yn unig.

Rydym wedi diweddaru ein harweiniad a'n ffurflenni i adlewyrchu cyflwyno Tâl Statudol Rhieni ar y Cyd (ShPP), diddymiad yr ASPP, y newid yn yr enw o'r Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin (OSPP) i'r Tâl Tadolaeth Statudol (SPP), y cynnydd yn y Tâl Mabwysiadu Statudol am y chwe wythnos gyntaf a chynnwys benthyg croth a rhieni maethu er mwyn mabwysiadu.

Am arweiniad bellach ynghylch absenoldeb a thâl mabwysiadu, gweler Technical guidance on the changes to adoption leave and pay

### Ffurflenni ac Arweiniad ACAS

Mae ACAS wedi datblygu a chynhyrchu ffurflenni ac arweiniad i helpu cyflogwyr a chyflogeion weinyddu a hawlio ShPP.

### Rheoliadau Gogledd Iwerddon

Am fwy o wybodaeth ynghylch absenoldeb a thâl rhieni ar y cyd yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer rhieni sy'n gweithio, gweler http://nibusinessinfo.co.uk/node/16147

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

# Hysbysu ynghylch Treuliau a Buddiannau ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015

### Eich helpu i'w gael yn iawn y tro cyntaf

Mae'n rhaid i ni wrthod ffurflenni/rhestri P11D a gofyn am ail-gyflwyno yn aml am nad ydynt yn bodloni'r Safon Ansawdd P11D (gweler isod) neu fod gwallau cyffredin wedi eu gwneud. Ni allwn ychwaith dderbyn ffurflenni P11D(b) sydd heb eu harwyddo'n gywir.

Gallai gwallau wrth gwblhau ffurflenni P11D, P9D a'r P11D(b) achosi oedi wrth brosesu a phroblemau gyda chodau treth cyflogeion, felly mae'n bwysig bod CThEM yn gallu prosesu'r rhain y tro cyntaf heb yr angen i gysylltu â chi. Rydym wedi tynnu'r wybodaeth ganlynol ynghyd i'w defnyddio wrth gwblhau'r ffurflenni hyn. Dylai eich helpu i'w cael yn iawn y tro cyntaf.

### A ydych yn llenwi ffurflenni P9D heb eisiau ar gyfer cyflogeion sy'n derbyn buddiant meddygol?

A wyddech chi, os yw'ch cyflogeion yn ennill ar gyfradd sy'n llai na £8,500 A'CH bod yn trefnu, ac yn talu'r darparwr yn uniongyrchol ar gyfer y driniaeth neu'r yswiriant, NID oes yn rhaid cwblhau ffurflen P11D?

Am wybodaeth bellach, gweler
Expenses and benefits: medical or dental treatment and insurance

Yn ogystal, daeth eithriad newydd rhag treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) i rym o 1 Ionawr 2015. Mae'n gymwys pan fod cyflogwr yn ariannu triniaeth feddygol er mwyn helpu cyflogai i ddychwelyd i''r gwaith, cyn belled â bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Gweler rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr a'r Canllaw Incwm Cyflogaeth am wybodaeth bellach.

### Treuliau Band Eang yn y Cartref

Os yw cyflogai sy'n dechrau gweithio o adref eisoes yn talu am gysylltiad rhyngrwyd band eang yn ei gartref, ni chodir cost ychwanegol arno. Ni all y cyflogwr, felly, ad-dalu costau rhyngrwyd band eang y cyflogai yn rhydd o dreth. Dylai unrhyw daliad o'r fath y mae'r cyflogwr yn penderfynu ei wneud fod yn agored i TWE a CYG.

Fodd bynnag, os nad yw'r cyflogai eisoes yn talu am gysylltiad rhyngrwyd band eang yn ei gartref, ac mae angen un arno er mwyn gweithio o adref o dan drefniant gweithio yn y cartref, mae ffi'r band eang yn draul ychwanegol y cartref, a gall y cyflogwr ei ad-dalu yn rhydd o dreth.

### Ffurflen ar-lein treuliau a buddiannau diwedd blwyddyn

Mae CThEM wedi datblygu ffurflen ar-lein i alluogi cyflogwyr i gyflwyno manylion treuliau a buddiannau diwedd blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y ffurflenni P9D, P11D a P11D(b). Bydd y ffurflen ar-lein yn gostwng yr angen am gyfnewid ar bapur rhwng cyflogwyr a CThEM. Bydd hefyd yn galluogi cyflogwyr i fewnosod manylion o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r ffurflen ar-lein yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd er mwyn hysbysu manylion ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2015 a bydd ar gael cyn bo hir.

### Gofynion P11D

Dyma nodyn i'ch atgoffa ynghylch rhai o'r pethau mae'n rhaid i chi wneud wrth lenwi ffurflen P11D:

- Mae'n rhaid i chi gynnwys eich cyfeirnod cyflogwr
- Mae'n rhaid i chi gynnwys enw a rhif Yswiriant Gwladol eich cyflogai. Os nad ydych yn gwybod beth yw rhif Yswiriant Gwladol y cyflogai, mae'n rhaid i chi roi ei ddyddiad geni a'i ryw
- Os ydych yn hysbysu ynglŷn â char a ddarparwyd gennych ar gyfer cyflogai, mae'n rhaid i chi gynnwys ei bris sylfaenol
- Os ydych yn cwblhau blwch 10 yn adran F (cyfanswm cyfwerth mewn arian y tanwydd ar gyfer pob car a ddarparwyd), yna mae'n rhaid i chi gwblhau blwch 9 hefyd (cyfanswm cyfwerth mewn arian pob car a ddarparwyd)
- Os ydych wedi darparu benthyciad buddiannol i gyflogai ac yn hysbysu yn ei gylch yn adran H, mae'n rhaid i chi lenwi blwch 15 (cyfwerth mewn arian y benthyciadau) yn ogystal.

Os ydych yn cyflwyno eich gwybodaeth P11D mewn fformat rhestr yn hytrach nag ar ffurflenni P11D, yna mae'n rhaid i chi wneud y canlynol yn ogystal:

- Cyflwyno eich rhestr mewn fformat sy'n rhwydd i'w ddarllen gan ddefnyddio ffont o faint sydd heb fod yn llai nag Arial 11 pwynt 11 pan fydd wedi ei hargraffu
- Trefnu eich rhestr yn ôl cyflogeion, nid yn ôl math o fuddiant
- Cynnwys eich cyfeirnod cyflogwr
- Cynnwys enw, rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni a rhyw pob cyflogai

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

- Cynnwys yr holl dreuliau a buddiannau a roddwyd i gyflogai ar yr un rhestr – ni allwn dderbyn rhestri gwahanol ar gyfer bob buddiant
- Dangos y llythrennau cod a neilltuwyd ar gyfer pob buddiant fel ar y ffurflen P11D – rhain yw'r llythrennau yn y blychau glas tywyll ar ochr chwith pob adran o'r ffurflen
- Pan fod y rhestr yn cynnwys treuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres, mae blaen y rhestr a phob un o'i thudalennau, wedi'u dynodi'n glir â 'TALWYD DRWY'R GYFLOGRES'.

## Gwallau cyffredin

Mae'r canlynol yn rhestr o wallau cyffredin y gellir eu hosgoi'n hawdd ond y gallant beri oedi wrth brosesu ac achosi problemau gyda chodau treth cyflogeion bob blwyddyn:

- Anfon gwybodaeth P11D ddyblyg ar bapur pan fod gwybodaeth P11D eisoes wedi ei chyflwyno ar-lein, er mwyn sicrhau bod 'CThEM wedi ei derbyn'. Gall yr wybodaeth ddyblyg hon achosi problemau prosesu
- Defnyddio ffurflen bapur sy'n perthyn i'r flwyddyn dreth anghywir – gwiriwch y gornel dde ar frig y dudalen gyntaf
- Dim ticio'r blwch 'cyfarwyddwr' os yw'r cyflogai'n gyfarwyddwr
- Dim cynnwys disgrifiad neu dalfyriad, pan fod symiau wedi eu cynnwys yn adrannau A, B, L, M neu N ar y ffurflen
- Gadael y blwch 'cyfwerth mewn arian' yn wag pan eich bod wedi rhoi ffigur yn y blwch cyfatebol, 'y gost i chi', mewn adran
- Cwblhau'r datganiad ar y cyflwyniad FPS/EPS olaf yn gywir (ar gyfer y cyflogeion hynny y mae'n ofynnol gan eu pecyn meddalwedd eu bod yn cael eu cwblhau) neu gwestiwn 6 yn adran A ffurflen RT 4 i nodi a oes ffurflenni P11D i'w dychwelyd
- Peidio â rhoi gwybod i CThEM naill ai ar ffurflen bapur P11D(b) neu gyflwyniad electronig nad oes datganiad Buddiannau a Threuliau i'w gyflwyno
- Pan fod buddiant wedi ei ddarparu at ddefnydd cymysg busnes a phreifat, rhoi gwerth y gyfran defnydd preifat yn unig – mae'n rhaid i chi hysbysu gwerth gros llawn y buddiant
- Dim cwblhau'r blwch/maes buddiant tanwydd pan fod hynny'n gymwys. Golyga hyn bod yn rhaid anfon ffurflen P11D ddiwygiedig
- Cwblhau'r dyddiadau 'o' ac 'i' yn anghywir yn y blychau 'Dyddiadau pan oedd y car ar gael'. Er enghraifft, rhoi 06/04/2014 i 05/04/2015 er mwyn dynodi bod y car ar gael drwy'r flwyddyn honno. Os bu'r car ar gael yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol, ni ddylid cwblhau'r blwch 'o' ac os bydd y car ar gael yn ystod y flwyddyn dreth nesaf, ni ddylid cwblhau'r blwch 'i'.

## Treuliau a Buddiannau'r Gyflogres – yr hyn sydd angen i chi ei wneud, a sut i'w cofnodi ar eich ffurflen P11D

Ar hyn o bryd, nid oes yna system ffurfiol mewn bodolaeth er mwyn talu treuliau a buddiannau drwy'r gyflogres ond mae yna rai cyflogwyr sy'n gwneud hynny o dan gytundeb anffurfiol CThEM.

Mae'n dal i fod angen i chi anfon ffurflenni P11D neu restri cyfwerth a ffurflen P11D(b) hyd yn oed os ydych wedi trefnu i dalu treuliau a buddiannau drwy'r gyflogres, am ei bod yn bosib y byddwch yn agored i gosbau os ydych yn methu â gwneud hynny.

Er mwyn osgoi prosesu data'n anghywir ar gyfer unrhyw ffurflenni P11D a wnaed drwy'r gyflogres, y dymunwch eu cyflwyno ar-lein, mae'n hanfodol eich bod yn ein hysbysu bod talu drwy'r gyflogres wedi digwydd cyn eich bod yn cyflwyno'ch ffurflenni P11D.

Er mwyn osgoi prosesu gwybodaeth arall yn anghywir, dylech anfon gwybodaeth ynghylch P11D yn unig gyda'ch ffurflenni papur neu restri. Er enghraifft, ffurflenni P11D(b), ceisiadau Adran 336 a gyflwynwyd ar ran eich cyflogeion.

## Treuliau a buddiannau a dalwyd yn gyfan gwbl drwy'r gyflogres

Mae hyn yn gymwys ar gyfer cyflogwyr sy'n talu'r holl dreuliau a buddiannau drwy'r gyflogres i'w cyflogeion. Pan fod yr holl dreuliau a buddiannau wedi eu talu drwy'r gyflogres, gellir anfon yr wybodaeth hon ynghylch P11D ar-lein neu ar bapur. Os caiff ei hanfon ar bapur, mae'n rhaid nodi 'TALWYD DRWY'R GYFLOGRES' ar bob ffurflen P11D neu bob tudalen o restr P11D.

Pan fyddwch yn bwriadu anfon y rhain ar-lein neu drwy ddull electronig arall o gyflwyno, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i CThEM cyn anfon yr wybodaeth P11D ynghylch y gyflogres eich bod yn bwriadu gwneud hynny. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio'r ffurflen hysbysu drwy ddull electronig

Ar y ffurflen/rhestr P11D, nodwch y swm a dalwyd drwy'r gyflogres yn y blwch 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono', pan fod hwn ar gael ar gyfer y buddiant perthnasol. Pan nad oes blwch 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono' ar gael ar gyfer y buddiant perthnasol, nodwch y swm a dalwyd drwy'r gyflogres yn y blwch 'cyfwerth mewn arian'. Mae'n rhaid datgan yr holl dreuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres hyd yn oed os yw'r 'cyfwerth mewn arian' net yn ddim, am ei bod yn bosib bod swm y buddiant a dalwyd drwy'r gyflogres yn agored i Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A.

Dylid cwblhau'r ffurflen P11D(b) mewn perthynas â threuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres fel y disgrifir ar dudalen 11.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

### Treuliau a buddiannau a dalwyd yn rhannol drwy'r gyflogres

Mae hyn yn gymwys ar gyfer cyflogwyr sy'n talu rhai treuliau a buddiannau ,ond yr holl dreuliau a buddiannau, drwy'r gyflogres i'w holl gyflogeion, neu rai ohonynt.

Gellir anfon yr wybodaeth P11D ar gyfer treuliau a buddiannau sydd heb fod drwy'r gyflogres, ar-lein neu ar bapur. Pan fod yr wybodaeth wedi'i chyflwyno, neu pan fydd yn cael ei chyflwyno, ar-lein, rhaid bod yr wybodaeth P11D ynghylch treuliau a buddiannau drwy'r gyflogres, yn cael ei hanfon ar bapur.

(Gellir ond anfon gwybodaeth P11D ynghylch buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres ar-lein, pan fod yr holl wybodaeth P11D yn y cyflwyniad ar-lein yn perthyn i dreuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres).

Pan yn gymwys, dylech gwblhau'r blwch 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono' ar y ffurflen P11D, pan fod hwn ar gael ar gyfer y buddiant perthnasol.

Pan fod yna flwch 'swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono' ar gael ar gyfer y buddiant perthnasol, gellir cynnwys yr wybodaeth P11D ynghylch buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres gyda naill ai'r wybodaeth 'heb eu talu drwy'r gyflogres,' neu'r wybodaeth 'a dalwyd drwy'r gyflogres'. Serch hynny, os caiff ei chynnwys gyda'r wybodaeth P11D a dalwyd drwy'r gyflogres, mae'n rhaid nodi 'TALWYD DRWY'R GYFLOGRES' yn glir ar yr holl ffurflenni papur neu dudalennau rhestr P11D.

Mae'n rhaid datgan yr holl dreuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres hyd yn oed os yw'r 'cyfwerth mewn arian' net yn ddim, am ei bod yn bosib bod swm y buddiant a dalwyd drwy'r gyflogres yn agored i Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A. Dylid cwblhau'r ffurflen P11D(b) mewn perthynas â threuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres fel y disgrifir ar dudalen 10.

### Ffurflen P11D(b)

Pan fod cyflogwr yn cyflwyno ffurflen P11D(b) bapur sy'n cynnwys swm Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A (CL1A) a godir, mae'n rhaid bod y datganiad ar y ffurflen yn cynnwys llofnod wedi ei ysgrifennu mewn inc ('llofnod gwlyb'). Yn ogystal, ni fydd CThEM yn derbyn ffurflen sy'n llungopi neu'n ddelwedd wedi i sganio o ffurflen wedi'i chwblhau, neu'n ffurflen sy'n cynnwys stamp o lofnod.

Bydd ffurflen P11D(b) bapur sy'n cynnwys swm CL1A a godir, a gyflwynir heb 'lofnod gwlyb', yn cael ei gwrthod a'i dychwelyd i'r cyflogwr i'w chywiro. Os yw'r cyflogwr yn dychwelyd y ffurflen wedi'i chywiro i CThEM ar ôl y dyddiad cau, sef 6 Gorffennaf yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth, gallai hynny arwain at gosb am gyflwyno'n hwyr.

Pan fo cyflogwr yn cyflwyno ffurflen P11D(b) bapur sydd ddim yn cynnwys swm CL1A a godir, ac nid yw'r datganiad ar y ffurflen yn cynnwys llofnod wedi ei ysgrifennu mewn inc (llofnod gwlyb), ni chaiff y ffurflen ei gwrthod yn awtomatig ond mae'n bosib bydd y cyflogwr yn derbyn galwad ffôn gan CThEM i gadarnhau'r wybodaeth a ddangosir. Pan fydd yr wybodaeth ar y ffurflen yn cael ei chadarnhau, derbynnir y ffurflen P11D(b) sydd heb ei llofnodi.

### Cwblhau ffurflen P11D(b) ar gyfer treuliau a buddiannau a dalwyd d rwy'r gyflogres

Mae Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 y Cyflogwr yn daladwy ar yr holl dreuliau a buddiannau perthnasol hyd yn oed os ydynt wedi eu talu drwy'r gyflogres, a dylid eu cyfrifo yn ôl y swm gros ac nid y 'cyfwerth mewn arian' net ar ôl iddynt gael eu talu drwy'r gyflogres.

Mae'r cofnodion yn y blychau '1A' brown ar y ffurflen P11D fel arfer yn cynnwys cyfanswm yr holl dreuliau a buddiannau sy'n agored i CYG CL1A, sydd wedyn yn cael ei osod ym mlwch '1A' ar y ffurflen P11D(b). Serch hynny, ar gyfer treuliau a buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres pan fod yna flwch 'swm a dalwyd neu a ddidynnwyd treth ohono', ni fydd y cofnodion yn y blychau '1A' yn rhoi i chi'r gwerth cywir y mae CYG CL1A yn daladwy arno. Yn yr achosion hyn, bydd angen i chi ail-gyfrifo cyfanswm gwerth yr holl dreuliau a buddiannau rydych yn agored i dalu CYG CL1A arnynt, gan sicrhau bod swm gros gwirioneddol y draul neu'r buddiant yn cael ei ddefnyddio yn eich cyfrifiad ac nid y 'cyfwerth mewn arian' net.

Pan fod y cyfanswm gwerth wedi'i ailgyfrifo ar gyfer y treuliau a'r buddiannau sy'n agored i CYG CL1A yn fwy na'r hyn a ddangosir ym mlwch 1A ar eich ffurflen P11D(b), dylid rhoi'r gormodedd ym mlwch '4B', yna ei ychwanegu i'r swm ym mlwch 1A ac ail-gyfrifo CYG CL1A ar y cyfanswm diwygiedig.

### Ffurflenni P11D/P11D(b) diwygiedig

Pan fod cyflogwr yn cyflwyno ffurflen P11D arall er mwyn diwygio'r treuliau a buddiannau yr hysbyswyd yn eu cylch yn flaenorol ar gyfer cyflogai, dylai'r ffurflen nid yn unig fod yn dangos y symiau/eitemau diwygiedig, ond hefyd yn cynnwys unrhyw symiau/eitemau cywir a gyflwynwyd ar y ffurflen wreiddiol yn flaenorol.

Pan fod cyflogwr yn cyflwyno ffurflen P11D(b) arall er mwyn diwygio Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A a godwyd, mae'n rhaid bod y ffurflen yn dangos y sefyllfa ddiwygiedig o ran CL1A ac nid swm y diwygiad yn unig.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

Er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu dyrannu'n gywir, dylai cyflogeion sicrhau eu bod yn rhoi'r cyfeirnod cywir ar gyfer y taliadau. Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 13 nod y cyflogwr yw hwn, gydag ôl-ddodiad 1513 ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaw i ben ar 5 Ebrill 2015 (ôl-ddodiad 1512 ar gyfer cyflogwyr sy'n talu drwy gyfrwng BillPay).

Mae gwybodaeth bellach ynghylch gwneud taliadau cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A ar gael.

### Cynlluniau Cyfartalu Ceir ('Car Averaging')

Pan fod cyflogwr yn y diwydiant cynhyrchu/gwerthu ceir yn gweithredu cynllun cyfartalu ceir, y 'car tybiannol' ar gyfer y grŵp perthnasol hwnnw ddylid hysbysu yn ei gylch ar y ffurflen P11D ar gyfer pob cyflogai sy'n rhan o'r cynllun. Yn eithriadol, os yw cyflogai'n newid grwpiau ceir o fewn y cynllun yn ystod y flwyddyn, yna bydd rhaid i'r cyflogwr hysbysu ynghylch dau 'gar tybiannol' ar ffurflen P11D y cyflogai.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r modd mae cynlluniau cyfartalu ceir yn gweithredu, sut i ddyrannu ceir i mewn i grwpiau a sut i gyfrifo buddiant 'car tybiannol' i hysbysu yn ei gylch ar ffurflen P11D yn y Canllaw Incwm Cyflogaeth yn EIM23825 ymlaen

### Gwybodaeth P11D wedi ei chyflwyno drwy Gyfrwng Symudadwy

Cewch eich atgoffa mai'r unig ffurf o gyfrwng symudadwy a dderbynnir gan CThEM ar gyfer cyflwyno gwybodaeth P11D yw disg hyblyg 3½ o fodfeddi.

Mae'r manylion technegol ar gyfer y cyflwyniadau hyn wedi'u rhestru yn y ddogfen EEC1 sydd ar gael ar wefan CThEM. Ni dderbynnir unrhyw ddisgiau hyblyg nad ydynt yn bodloni'r manylebau technegol.

Ni all CThEM dderbyn gwybodaeth P11D ar gryno ddisg neu gofbin.

### Ffurflenni P11D a ffurflenni cais S336

Cyfrifoldeb cyflogai unigol yw cyflwyno cais S336. Pan gaiff hwn ei atodi at y ffurflen bapur P11D wreiddiol a'i chyflwyno gan gyflogwr ar ran cyflogai, dylid anfon y cais S336 a'r ffurflen P11D i:

Cyllid a Thollau EM/HM Revenue & Customs,
Swyddfa CYG a Chyflogwyr / NIC&EO, Room BP2101,
Tynemouth House,
Benton Park View,
Longbenton,
Newcastle Upon Tyne
NE98 1ZZ.

Ar ôl ei derbyn, bydd CThEM yn cadw'r cais S336 sydd wedi ei atodi i'r ffurflen P11D er mwyn sicrhau bod y ddau wedi eu prosesu gyda'i gilydd, ar yr un pryd.

Pan fod cais S336 yn cael ei gyflwyno ar wahân i'r ffurflen P87, ffurflen P810 neu ar ffurf llythyr ac heb ei atodi i ffurflen P11D wreiddiol, dylid nodi **CAIS S336** yn glir arno ac atodi copi o'r P11D (dylid nodi arni fod y ffurflen P11D yn gopi). Bydd hyn yn helpu CThEM i nodi'r achosion hyn gyn gynted â phosib a'u hanfon i'w prosesu.

Dylid anfon y cais S336, ynghyd â'r copi o'r P11D wedi'i hatodi, i:

Talu Wrth Ennill a Hunanasesiad Pay As You Earn and Self Assessment
Cyllid a Thollau EM / HM Revenue & Customs
BX9 1AS.

### Goddefebau

Peidiwch ag anghofio y gallwch wneud cais i CThEM am oddefeb sy'n cwmpasu treuliau a buddiannau arferol y mae cyflogai'n cael didyniad treth llawn ar eu cyfer, ac y byddai'n cael gwared ar y rheidrwydd i chi hysbysu ynghylch y rhain ar ffurflen P11D/P9D.

Er enghraifft, treuliau busnes yr aed iddynt wrth gyflawni dyletswyddau cyflogaeth, y byddai'n rhaid i gyflogai fel arfer gyflwyno cais S336 ar eu cyfer, er mwyn derbyn didyniad treth.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â pha eitemau y gellir/na ellir eu cynnwys mewn goddefeb a nodyn atgoffa ynghylch sut i wneud cais, hefyd ar gael.

### Pecynnau cymorth ar gyfer cwtogi ar wallau, yn rhad ac am ddim ar-lein

Rydym hefyd yn cynhyrchu Pecynnau Cymorth ar-lein rhad ac am ddim sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth er mwyn helpu i osgoi rhai o'r gwallau cyffredin a welwn mewn datganiadau sydd wedi eu cwblhau. Mae'r Pecynnau Cymorth wedi eu hanelu'n bennaf at weithwyr treth proffesiynol a chyfrifwyr ond mae'n bosib y byddant hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer busnesau unigol, yn enwedig os ydynt yn rhedeg eu cyflogres eu hunain.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio

# Cyflwyno ffurflenni P11D os yw eich busnes wedi mynd drwy broses gyfuno cynlluniau TWE, dilyniant neu drosglwyddiad cynlluniau rhannol

### Cyfuniad cynlluniau TWE

Proses gyfuno cynlluniau TWE yw pan fod dau neu fwy o gynlluniau TWE ar gyfer yr un endid cyfreithiol yn dod ynghyd.

Os yw eich busnes wedi mynd drwy broses gyfuno cynlluniau TWE ac mae eich cyflogeion yn derbyn buddiannau, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi gyflwyno dwy ffurflen P11D ar gyfer pob cyflogai perthnasol – un o dan y cyfeirnod TWE gwreiddiol ar gyfer y cyfnod hyd at y dyddiad cyn y cyfuniad, ac os parhaodd y cyflogai dderbyn buddiannau, un o dan y cyfeirnod TWE newydd ar gyfer y cyfnod o ddyddiad y cyfuniad.

Sylwer – nid yw cyfuniad busnes bob amser yn arwain at broses gyfuno cynlluniau TWE. Os yw eich busnes wedi mynd trwy broses gyfuno busnesau ac mae'r cyflogeion yn dal i gael eu cyflogi o dan y cyfeirnod cynllun TWE gwreiddiol, dim ond un ffurflen P11D sydd ei hangen.

### Dilyniant

Dilyniant yw pan fod perchenogaeth busnes yn newid o un endid cyfreithiol i un arall ac mae'r perchennog newydd yn cymryd cyfrifoldeb am gofnodion y gyflogres.

Os yw eich busnes wedi mynd trwy ddilyniant ac mae eich cyflogeion yn derbyn buddiannau:-

- Os ar ôl cysylltu â CThEM cewch eich cynghori bod eich busnes wedi bod trwy ddilyniant, bydd ond angen i chi gyflwyno un ffurflen P11D ar gyfer bob cyflogai perthnasol o dan y cyfeirnod TWE newydd. Mae'n rhaid bod y ffurflen P11D wedi'i llenwi yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd i'w hysbysu ar gyfer y ddau gyfeirnod cynllun TWE ar gyfer bob cyflogai perthnasol
- Os nad ydych wedi cysylltu â CThEM i'w hysbysu ynghylch eich dilyniant, bydd angen i chi gyflwyno dwy ffurflen P11D ar gyfer pob cyflogai perthnasol – un o dan y cyfeirnod cynllun TWE gwreiddiol ar gyfer y cyfnod hyd at y dyddiad cyn y digwyddodd y dilyniant, ac os parhaodd y cyflogai i dderbyn blwydd-daliadau, un o dan y cyfeirnod cynllun TWE newydd ar gyfer y cyfnod o ddyddiad y dilyniant.

### Trosglwyddiad cynllun rhannol

Trosglwyddiad cynllun rhannol yw pan gaiff cofnodion y gyflogres ar gyfer rhai, ond nid pob un, o'ch cyflogeion eu trosglwydo i gynllun TWE arall.

Os yw eich busnes wedi mynd drwy drosglwydiad cynllun rhannol, bydd angen i chi gyflwyno dwy ffurflen P11D, un o dan y cyfeirnod cynllun TWE gwreiddiol, ac os parhaodd y cyflogai i dderbynh blwydd-daliadau, un o dan y cyfeirnod cynllun TWE newydd ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad y digwyddodd y trosglwyddiad.

---

# Cau eich cynllun TWE

Gallwch roi gwybod i ni eich bod yn cau eich cynllun TWE drwy ddewis y blwch 'Cyflwyniad terfynol oherwydd bod y cynllun wedi dod i ben' a llenwi'r blwch 'Dyddiad y daeth y cynllun i ben' ar eich cyflwyniad terfynol ar FPS neu EPS.

Ni fydd angen i chi ein ffonio i roi gwybod bod eich cynllun wedi dod i ben os ydych wedi hysbysu ynghylch hynny ar eich FPS neu EPS.

Rhaid i'r dyddiad a nodwch fod y dyddiad y daeth y cynllun i ben, ac ni all fod yn ddyddiad yn y dyfodol. Ar ôl derbyn y ffurflen dreth bydd CThEM yn dilysu'r wybodaeth, ac yn y mwyafrif o achosion caiff y cynllun ei gau yn awtomatig. Yn ogystal, caiff unrhyw gostau misol amcangyfrifedig ar gyfer cyfnod tâl ar ôl y dyddiad y daeth y cynllun i ben, eu canslo yn awtomatig.

Pan fod y ffurflen dreth yn methu dilysiad neu os gwnaethoch dalu isgontractwyr yn ystod y flwyddyn y daeth y cynllun i ben, bydd yn rhaid i CThEM gau'r cynllun mewn modd clerigol. Er mwyn gwneud hyn mae'n bosib y bydd angen i ni gysylltu â chi.

Yn ystod yr amser hwn, ni chodir costau misol amcangyfrifedig pellach nac ychwaith unrhyw gosbau cyflwyno ar gyfer unrhyw gyfnodau tâl ar ôl y dyddiad daeth y cynllun i ben.

Ewch i [Stop being an employer](Stop being an employer) am fwy o wybodaeth ynghylch cau eich cynllun TWE.

Wedi ei archifo peidiwch â'i ddefnyddio